



# LLENWI'R GWAGLE

Camau tuag at fframwaith polisi  
ôl-Brexit y DU

---

PAPUR TRAFOD UNDEB AMAETHWYR CYMRU  
GORFFENNAF 2018



## Crynodeb Gweithredol

Er bod y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) a fframweithiau cysylltiedig yr UE wedi achosi rhwystredigaeth ddiddiwedd i ffermwyr a gweinyddiaethau fel ei gilydd, ychydig iawn sydd erioed wedi cwestiynu'r rhesymeg dros gael rheolau cyffredin a chymesur sy'n amddiffyn busnesau rhag afluniad y farchnad a chystadleuaeth annheg, sicrhau bod marchnadoedd mewnol y DU a chadwyni cyflenwi yn parhau i weithredu'n iawn ac yn cwrdd ag amcanion cyffredin y cytunwyd arnynt er budd pawb.

Bydd colli fframweithiau o'r fath ar ôl i ni adael yr UE yn creu gwagle deddfwriaethol anghyffredin, ac nid trwy gynllun, ond o ganlyniad i ddiffyg mecanweithiau priodol lle gellid cytuno ar fframweithiau, a'r gwahaniaethau gwleidyddol sy'n bodoli o fewn a rhwng pleidiau a llywodraethau cenedlaethol.

Mae'r rhwystrau i sefydlu mecanweithiau o'r fath yn sicr yn arwyddocaol, yn enwedig o gofio'r amserlenni dan sylw, ond nid yw anawsterau o'r fath yn gwadu'r angen brys i greu fframweithiau ystyrion a champau pendant i greu'r mecanweithiau y gallant gytuno a llywodraethu.

Yn y ddwy flynedd ers y bleidlais i adael yr UE, mae'r cynnydd ar ddatblygu fframweithiau o'r fath mewn perthynas â'r gwahanol bolisiau cenedlaethol a fydd yn effeithio ar ffermwyr ledled y DU wedi bod yn ddibwys.

Ar ben hynny, ymddengys bod llawer yn croesawu'r rhyddid i ddatblygu polisiau cenedlaethol gwahanol sydd ag ychydig o ystyriaeth i ddim arall heblaw rheolau Sefydliad Masnach y Byd, a hyd yn oed gwrthod cydnabod canlyniadau'r peryglon y gwahaniaethau mawr.

Mae'r papur hwn yn cyflwyno dadleuon clir ynghylch pam na ddylid caniatáu i hyn ddiwydd, ac mae'n nodi'r egwyddorion bras dros fframwaith amaethyddol a gwledig ôl-Brexit y DU a'r mecanweithiau y dylid cytuno arnynt.

Mae'r rhain yn cynnwys:

1

Sefydlu fframwaith llywodraethu sy'n cynnwys cyrff sy'n gwneud penderfyniadau ac sy'n llawn barchu pwerau datganoledig wrth gytuno, gweithredu a chyflwyno'r rheolau cyffredin a gytunwyd

2

Cytuno ar yr amcanion cyffredin a rennir a ddylai fod yn sail i bob polisi amaethyddol a gwledig

3

Fformiwla ariannu deg sy'n adlewyrchu anghenion cenedlaethol yn briodol

4

Cyllidebau aml-flynyddol sy'n lleihau ansicrwydd blynyddol i fusnesau a gweinyddiaethau

5

Fframweithiau ariannol sy'n caniatáu hyblygrwydd o ran gwario mewn meysydd allweddol o fewn trothwy penodol

6

Fframweithiau deddfwriaethol sy'n sicrhau cyffredinedd cymharol wrth barchu'r gwahanol anghenion a blaenoriaethau cenedloedd y DU

Fel sefydliad a sefydlwyd fwy na chwe deg mlynedd yn ôl i hyrwyddo a diogelu buddiannau ffermwyr Cymru, mae Undeb Amaethwyr Cymru, yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i ddatganoli a'r manteision a ddaw yn sgil hynny i Gymru a gwledydd eraill dros y ddau ddegawd diwethaf.

Ond nid yw newidiadau o'r fath yn negyddu'r angen i bob un o'n cenedloedd gydweithio i ddatblygu dulliau gweithredu sydd o fudd i'r ddwy ochr ac nid yn unig yn amddiffyn ein ffermwyr a'n marchnadoedd mewnol, ond hefyd ein statws ac enw da ledled Ewrop a'r Byd.

## Cyflwyniad

Rydym yn ymwybodol o ddylanwad fframweithiau sy'n rheoli sut mae nwyddau'n cael eu cynhyrchu a'u masnachu drwy'r amser, ac er nad oeddwn yn trafod eu pwysigrwydd ychydig flynyddoedd yn ôl, yn yr hinsawdd wleidyddol fyd-eang presennol, dyma sydd wrth wraidd nifer o ddadleuon: Penderfyniad diweddar yr Unol Daleithiau i osod tariffau mewnfario helaeth ar ddrac ac alwminiwm wedi arwain at gamau disgyblu gan yr UE a Tsieina, yn ogystal ag gweithrediadau ffurfiol ar y sail bod gweithredoedd yr Unol Daleithiau yn anghyfreithlon o dan y fframwaith o reolau a gytunwyd gan Sefydliad Masnach y Byd.

Er gwaethaf anghydfodau cyfoes o'r fath sy'n deillio o'r fframwaith rhyngwladol y cytunwyd arno, mewn gwirionedd mae terfynau Sefydliad Masnach y Byd ar ymyriadau a rhwystrau masnach yn rhyddfrydol, gan roi cyfle mawr i amrywiadau, gan gynnwys o ran cynhyrchu a nwyddau amaethyddol.

Mae hyn yn golygu y bydd y gwledydd hynny sy'n dod i mewn i drefniadau masnach agosach, ar y cyfan yn cytuno ar fframweithiau ychwanegol sy'n lleihau afluniad a chynnal safonau - gan ganiatáu i nwyddau symud rhwng gwledydd yn rhwydd ac yn lleihau effeithiau andwyol yn llawer mwy na fyddai rheolau Sefydliad Masnach y Byd.

Mae'r rheol gyffredinol mor reddfol â'r rhesymeg sy'n sail i egwyddor fframweithiau o'r fath: Pan ostyngir rhwystrau i fasnachu rhwng gwledydd, mae'r angen am fframweithiau cytûn er mwyn atal camddehongliad a chynyddu cyffredindeb yn tyfu.

Mae pwysigrwydd arbennig o ran cynhyrchu a diogelwch bwyd, a'r materion cysylltiedig o iechyd anifeiliaid a phlanhigion, yn golygu bod amaethyddiaeth, bob amser, yn derbyn statws arbennig yn nhermau cytundebau fframwaith - dim llai nag yn Farchnad Sengl yr UE, sy'n sail ac yn arwain at yr Undeb Ewropeaidd (UE). lle mae polisïau amaethyddol cyffredin olynol wedi nodi rheolau a therfynau llym, gan ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd i Aelod-wladwriaethau, ond dim ond o fewn fframweithiau diffiniedig.

Mae cynigion y Comisiwn Ewropeaidd i ryddfrydoli fframwaith PAC 2021-2027 wedi sbarduno cryn dipyn o ddadlau, ac er bod Comisiynydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yr UE, Phil Hogan, wedi egluro ei farn bod "... nid yw'r model newydd yn rhoi rhwydd hynt i aelod-wladwriaethau i wneud fel y mynnant" a bydd y mesurau diogelwch allweddol hyn yn sicrhau "polisi cyffredin a gwirioneddol Ewropeaidd" a "chwarae teg i bawb", mae'r cynigion wedi achosi pryder cyffredinol o symud tuag at bolisïau amaethyddol a rennir a fydd yn afluniad y farchnad

rhwng Aelod-wladwriaethau trwy gyflwyno manteision annheg i rai ffermwyr a chynhyrchwyr.

O'i gymharu, mae'r peryglon o afluniadau tebyg sy'n digwydd o fewn y DU wedi cael eu hanwybyddu neu eu heithrio gan faterion eraill yn gyffredinol, er gwaethaf y rhyddid i gyflwyno polisïau gwahanol ar draws y DU yn orchmynion mwy na'r hyn a gynnigir yn yr UE.

Ond wrth i'r Deyrnas Unedig baratoi i adael yr UE a'r fframweithiau cyfreithiol ac ariannol a ddiffinnir yn y PAC, mae gwir angen i ddisodli'r mesurau diogelu sydd ar waith ar hyn o bryd o dan y PAC, o gofio y bydd nwyddau'n parhau i symud rhwng ein pedair gwlad heb rwystr.

Mewn unrhyw amgylchiadau arall, byddai'r angen i sefydlu fframweithiau ariannol a rheoleiddio ystyrion ar gyfer amaethyddiaeth wedi derbyn cydnabyddiaeth gyflym ledled y DU; ond mae'r ansicrwydd a achoswyd gan Brexit, ynghyd â nifer o bryderon gwleidyddol ac ymarferol, agendâu a rhwystrau wedi ein gadael ni â gwagle, gan greu perygl bydd bwlch rhwng polisïau cenedlaethol yn arwain at afluniad masnachol mawr ac anfanteision llwyr i rai ffermwyr, rhanbarthau a sectorau.

Yn dilyn ymgynghori â'r aelodau, cytunodd Undeb Amaethwyr Cymru ym mis Medi 2016 y dylid sefydlu fframweithiau sy'n atal cystadleuaeth annheg rhwng rhanbarthau datganoledig a diogelu ac amddiffyn cyllid digonol hirdymor ar gyfer amaethyddiaeth, gan barchu pŵerau datganoledig dros amaethyddiaeth a'r angen am hyblygrwydd yn caniatáu i lywodraethau datganoledig wneud penderfyniadau sy'n briodol i'w rhanbarthau.

Yn yr un mis ar hugain dilynol, mae'r cynnydd a wnaed o ran sefydlu fframweithiau o'r fath wedi bod yn ddibwys, gan achosi pryder mawr, a daeth llawer o'r rhain i'r amlwg gan y gwahaniaethau rhwng dyheadau datganoledig gweinyddiaethau Cymru, yr Alban a Lloegr o ran polisïau amaethyddol yn y dyfodol.

Mae'r papur hwn wedi'i anelu at hyrwyddo trafodaeth sy'n tawelu'r fath bryderon; nid yw'n cynnig polisi a gytunir gan aelodau UAC, ac nid yw'n gynhwysfawr o ran y manylion sy'n debygol o fod eu hangen mewn cynigion manwl.

Yn hytrach, mae'n nodi'r math o egwyddorion eang y gellid eu defnyddio fel sail er mwyn sefydlu fframwaith ystyrion y DU sy'n parchu datganoli ac yn osgoi peryglon clir o agwedd rhwydd hynt i bawb.

## Fframwaith llywodraethu

Mae'r diffyg cynnydd o ran llunio fframwaith ystyrion y DU yn ganlyniad uniongyrchol bod dim corff na phrosesu digonol i ddod i gytundeb rhwng ein llywodraethau cenedlaethol.

Mae hyn wedi arwain at y sefyllfa bryderus lle mae ein pedair gwlad yn cynnig newidiadau a fyddai'n cyflwyno lefelau gwahanol a hollol newydd o ran cefnogaeth amaethyddol a pholisïau gwledig.

Wrth gwrs, nid yw gwahaniaethau o'r fath o reidrwydd yn golygu bod polisïau ym mhob un o'r pedair gwlad yn taseilio buddiannau cyffredin, yn arwain at fanteision annheg neu'n cyfaddawdu gweithrediadau marchnadoedd mewnol a chadwyni cyflenwi'r DU; ond os na fydd effeithiau negyddol o'r fath yn digwydd, bydd hyn yn esgeulus yn hytrach na thrwy ddyluniad.

Hefyd, os bydd effeithiau o'r fath yn dod yn broblem, ni fydd unrhyw fecanwaith cymesur i fynd i'r afael â hyn, a phan fydd angen gweithredu, mae hyn yn debygol o fod yn gynhennus yn wleidyddol, gan ychwanegu at y rhaniad presennol rhwng pleidiau a llywodraethau cenedlaethol ac o bosibl yn sbarduno argyfyngau cyfansoddiadol pellach.

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi datgan ei chefnogaeth glir i farn Llywodraeth Cymru y dylid datblygu Cydbwyllgor Gweinidogion y DU o fewn Cyngor Gweinidogion sy'n gweithredu'n iawn, ac er nad ydym yn bychanu'r rhwystrau gwleidyddol ac eraill i wneud hyn, mae'r peryglon o beidio â sefydlu corff o'r fath yn amlwg - nid lleiaf yn nhermau'r gwahaniaeth sy'n datblygu rhwng polisïau cenedlaethol.

Mae'n rhaid i lywodraeth dda gael ei chynnal gan gorff neu gyrff annibynnol sydd â phwerau ac adnoddau digonol i asesu a monitro cynlluniau ac ymyriadau cenedlaethol, sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau fframwaith, a gweithredu ac chyflafareddu mewn achos o gwynion gan lywodraethau cenedlaethol.

**“Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi datgan ei chefnogaeth glir i farn Llywodraeth Cymru y dylid datblygu Cydbwyllgor Gweinidogion y DU o fewn Cyngor Gweinidogion sy'n gweithredu'n iawn”**

# Amcanion cyffredin

Am lawer o ail hanner yr 20fed ganrif, roedd polisi amaethyddol y DU wedi'i ategu a'i gyfarwyddo gan Ddeddf Amaethyddiaeth 1947, a ddisgrifiwyd gan y Gweinidog yn gyfrifol am ei chyflwyno, Thomas Williams, y Barwn Williams o Barnburgh, fel y bwriadwyd "i hyrwyddo amaethyddiaeth iach ac effeithlon gyda'r gallu i gynhyrchu'r rhan honno o fwyd y genedl sy'n ofynnol o ffynonellau cartref ar y pris isaf sy'n gyson â darparu cydnabyddiaeth ddigonol ac amodau byw boddhaol i ffermwyr a gweithwyr, gyda dychweliad rhesymol ar fuddsoddiad cyfalaf".

Roedd Cytundeb Rhufain, a lofnodwyd gan aelodau sefydliadol Cymuned Economaidd Ewropeaidd ym 1957, yn cynnwys egwyddorion tebyg gyda'r nod o sicrhau safon byw deg i ffermwyr a darparu cyflenwadau bwyd am bris rhesymol, a hefyd yn sefydlu safonau a anelir at leihau afluniad y farchnad a sicrhau safonau cyffredin o fewn yr hyn oedd a enwyd yn Farchnad Cyffredin.

Er bod yr egwyddorion eang a ddiffinnir yng Nghytundeb Rhufain yn parhau fel mae blaenoriaethau byd-eang a chenedlaethol wedi newid a datblygu, felly hefyd yr egwyddorion ychwanegol sy'n diffinio natur ac amcanion PAC yr UE.

Felly, mae'r PAC presennol yn darparu fframwaith polisi yn seiliedig ar lu o heriau byd-eang ac Ewropeaidd trwy dair egwyddor gyffredinol, sef:

1. Cynhyrchu bwyd hyfyw
2. Newid yn yr hinsawdd a rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol
3. Datblygiad tiriogaethol cytbwys, sy'n cynnwys diffiniad o un ar ddeg o flaenoriaethau a chamau gweithredu pellach

Er bod y DU yn destun i'r fframwaith polisi sy'n ymgorffori'r egwyddorion hyn ar hyn o bryd, ar ôl i ni adael yr UE mae rhesymeg glir dros ein cenhedloedd i gytuno ar olynnydd sy'n cydnabod yr heriau a'r diddordebau cyffredin sy'n bodoli ar draws y DU, wrth barchu datganoli ar yr un pryd.

Fel mae pethau ar hyn o bryd, nid oes fframwaith o'r fath wedi'i gytuno, gan olygu bod ein cenhedloedd yn rhydd i gynllunio polisïau a allai nid yn unig fod yn wahanol iawn o ran amcanion allweddol, ond yn gwneud hynny i'r graddau eu bod yn gwrthddefneidd ei gilydd neu hyd yn oed danseilio buddiannau cyffredin a gweithredu marchnadoedd mewnol y DU a chadwyni cyflenwi.

Felly, er mwyn buddiannau'r pedair gwlad i gytuno ar amcanion polisi cyffredin, mae UAC yn cynnig y canlynol fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth pellach:

## 1. Ffermydd teuluol ac economi wledig

Mae ffermwyr yn rhan allweddol o gadwyni cyflenwi bwyd cymhleth sy'n cynnwys busnesau megis milfeddygon, masnachwyr bwyd, peirianwyr a chontractwyr, yn ogystal â busnesau fel cludwyr, marchnadoedd da byw a busnesau bwyd - mae pob un ohonynt yn rhan annatod o economi wledig fywiog.

Mae amaethyddiaeth hefyd yn chwarae rhan ganolog mewn meysydd eraill o bwysigrwydd economaidd, diwylliannol a chymdeithasol uniongyrchol i Gymru a'r DU, gan gadw'r tirluniau a chynefinoedd amrywiol, sy'n bwysig i'r rhai hynny sy'n ymweld a chefn gwlad a diogelu hunaniaeth ddiwylliannol gyfoethog ac amrywiol rhanbarthau a chenhedloedd.

Mae ein ffermydd teuluol wrth wraidd cadwyni cyflenwi o'r fath a'r manteision economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ehangach o amaethyddiaeth, a dylai cadw a gwella statws ein ffermydd teuluol fod yn bolisi craidd unrhyw bolisi amaethyddol yn y dyfodol.

Hefyd, mae'n rhaid osgoi polisïau sy'n arwain at gollu teuluoedd o'r diwydiant ar bob cyfrif, gan y byddai hyn yn arwain at ganlyniadau ofnadwy i'n economïau gwledig, cymdeithas, tirluniau a chynefinoedd, gan achosi niwed anadferadwy i'n cenhedloedd.

Mae'r egwyddor o ddarparu incwm teg ar gyfer teuluoedd ffermio yn sail i'r PAC, fel y bu Deddf Amaethyddiaeth 1947 a oedd yn ei rhagflaenu, a dylai unrhyw bolisi yn y dyfodol gadarnhau'r egwyddor hon fel amcan craidd - byddai peidio â gwneud hynny'n gam sylweddol am nôl.


Fodd bynnag, cydnabyddir bod mecanweithiau cymorth presennol a blaenorol nid yn unig wedi bod yn amherffaith, ond hefyd yn dod â nifer o broblemau ac weithiau'n denu beirniadaeth deg.

Felly, dylai gwledydd y DU fod â mwy o hyblygrwydd o dan bolisi amaethyddol ôl-Brexit i deilwra dulliau i'w hanghenion penodol er mwyn cynnal a hybu incwm fferm deuluol - ond dim ond o fewn meini prawf sy'n lleihau cystadleuaeth annheg rhwng cenhedloedd ac yn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddarparu ar lefelau teg i ffermydd teuluol dilys.

Mae'r angen i sicrhau bod gan y genhedlaeth nesaf o ffermwyr fynediad teg i gyllid a thir, boed yn olynwyr teuluol neu'n newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant yn hanfodol i ddyfodol ffermydd teuluol, a dylai llywodraethau'r DU a llywodraethau cenedlaethol weithredu newidiadau sy'n cynorthwyo olyniaeth.

**"Mae'n rhaid osgoi polisïau sy'n arwain at gollu teuluoedd o'r diwydiant ar bob cyfrif, gan y byddai hyn yn arwain at ganlyniadau ofnadwy i'n economïau gwledig, cymdeithas, tirluniau a chynefinoedd, gan achosi niwed anadferadwy i'n cenhedloedd"**

## BLAENORIAETHAU



## 2. Newid yn yr hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd wastad wedi digwydd, boed o ganlyniad i newidiadau i gylchdroi'r Ddaear ac orbit, digwyddiadau daearegol neu effeithiau rhywogaethau.

Fodd bynnag, mae'r farn wyddonol gyffredin bod y newidiadau a fesurwyd dros y canrifoedd diweddar yn fwy llym nag unrhyw beth arall a achosir gan rywogaeth sengl dros gyfnod mor fyr, a bod angen gweithredu er mwyn lleihau ein heffaith ar yr hinsawdd os ydym am osgoi effeithiau trychinebus.

Cyda disgwyl i boblogaeth y byd godi rhwng naw a deg biliwn erbyn 2050, a rhagwelir gostyngiadau mewn cynhyrchiant amaethyddol byd-eang fesul hectar, mae amaethyddiaeth yn parhau ar y blaen, ac mae lliniaru'r newid yn yr hinsawdd heb beryglu diogelwch bwyd yn un o'r heriau hirdymor mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu dynoliaeth.

O ystyried dibyniaeth amaethyddiaeth ar yr amgylchedd a'r hinsawdd, o bosib, mae ein diwydiant yn fwy agored na unrhyw ddiwydiant arall i beryglon newid yn yr hinsawdd o ran

cynnydd yn lefelau'r môr, a thywydd fwyfwy eithafol, boed yn sychder, llifogydd neu dywydd annisgwyl - tra bod materion cysylltiedig megis y ddibyniaeth ar danwydd ffosil ar gyfer cynhyrchu bwyd effeithlon yn her enfawr.

Fel diwydiannau eraill, mae'n rhaid i amaethyddiaeth wynebu'r her o leihau ei gyfraniadau ei hun i newid yn yr hinsawdd, ond rhaid iddo wneud hynny wrth sicrhau nad yw ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth yn cael eu tanseilio, a bod bwyd yn parhau i gael ei gynhyrchu yn y DU yn hytrach na chael ei symud i wledydd sydd ag ôl troed amgylcheddol a charbon mwy.

Yn wahanol i ddiwydiannau eraill, mae amaethyddiaeth hefyd mewn sefyllfa unigryw i wella'r rôl y mae eisoes yn ei gyfrannu wrth ddal carbon a lleihau dibyniaeth ein cenhedloedd ar ynni a gynhyrchir drwy ddefnyddio tanwydd ffosil i gynhyrchu ynni gwyrdd, a'r tu allan i PAC yr UE, mae gennym gyfle gwell i gynorthwyo ein ffermwyr gyda chynlluniau cynhyrchu ynni a fydd yn lleihau dibyniaeth ein cenhedloedd ar danwydd ffosil.

**“Mae amaethyddiaeth ... unigryw i wella'r rôl y mae eisoes yn ei gyfrannu wrth ddal carbon a lleihau dibyniaeth ein cenhedloedd ar ynni a gynhyrchir drwy ddefnyddio tanwydd ffosil i gynhyrchu ynni gwyrdd”**



## 3. Cadwyni cyflenwi teg a diogel

Roedd sicrhau bod gan bobl gyflenwadau digonol o fwyd am brisiau fforddiadwy yn amcan polisi allweddol o Ddeddf Amaethyddiaeth 1947 a'r PAC, heb unrhyw raddau helaeth o lwyddiant; mae digon o fwyd ar gael, ac mae cyfran yr incwm cartref a wariwyd ar fwydo teuluoedd yn hanner yr hyn yr oedd yn hanner can mlynedd yn ôl.

Yn y cyfamser, mae natur cadwyni cyflenwi bwyd wedi newid y tu hwnt i adnabyddiaeth, gyda dyrnaid o fanwerthwyr a phroseswyr yn dal y mwyafrif o bŵer, gyda rheoliad swyddogol y llywodraeth ar brisiau a'r gadwyn gyflenwi yn ddibwys o'i gymharu â rheolau rhesymu a phrisiau'r gorffennol.

Er bod y fath newidiadau wedi dod â manteision niferus, ychydig iawn sydd ddim yn cydnabod y niwed, peryglon ac anfanteision i'r rhai sydd ar y gwaelod ac wedi tanseilio chwaraewyr llai mewn cadwyni bwyd ac wedi caniatáu pŵer mawr i lond llaw o weithredwyr mawr.

Yn 2014, daeth cydnabyddiaeth o broblemau o'r fath pan benodwyd Dyfarnwr Cod Cyflenwi

Bwydydd, a'i rôl oedd sicrhau bod cyflenwyr uniongyrchol yr archfarchnadoedd mawr yn cael eu trin yn gyfreithlon ac yn deg.

Ond, ar ôl Brexit, mae'n rhaid i lywodraethau gymryd agwedd llawer mwy rhagweithiol os ydym am fynd i'r afael yn wirioneddol ag effeithiau megis dewisiadau sy'n dirywio ar gyfer ffermwyr a defnyddwyr, llai o gystadleuaeth rhwng llai o fusnesau, cynnydd mewn milltiroedd bwyd a cholli'r gallu i brosesu'n lleol.

Uwchlaw popeth arall, mae'n rhaid gwneud ein cadwyni cyflenwi bwyd yn deg er mwyn sicrhau bod ffermwyr, cynhyrchwyr ac eraill sy'n rhan o'r gadwyn gyflenwi yn derbyn prisiau teg am eu cynnyrch ac nad ydynt yn cael eu tanseilio gan weithredoedd y cwmnïau mawr.

Yn allweddol i hyn yw gwella tryloywder mewn ffordd nad yw'n tanseilio cystadleuaeth deg, tra hefyd yn rhoi grym i ffermwyr gydweithio er mwyn cryfhau eu safle yn y farchnad.

**“Mae'n rhaid gwneud ein cadwyni cyflenwi bwyd yn deg er mwyn sicrhau bod ffermwyr, cynhyrchwyr ac eraill sy'n rhan o'r gadwyn gyflenwi yn derbyn prisiau teg am eu cynnyrch ac nad ydynt yn cael eu tanseilio gan weithredoedd y cwmnïau mawr”**



## 4. Amgylchedd a chynefin

Rheolir y mwyafrif helaeth o dirweddau'r DU, a hynny ers cannoedd neu filoedd o flynyddoedd, boed hynny trwy amaethyddiaeth, coedwigaeth neu am resymau eraill; mae'r rhywogaeth sy'n byw yn y cynefinoedd hynny ac o'i gwmpas wedi esblygu i ddibynnu ar ein gweithredoedd ac ymyriadau ni, sy'n golygu gor-reoli neu newid ein rhyngweithiadau ag ecosystemau, gall niweidio'r rhywogaethau hynny.

Mae polisïau amaethyddol a defnydd tir blaenorol, sy'n cael eu hysgogi'n aml gan angenrheidiâu megis yr angen i sicrhau cyflenwadau bwyd a phren cenedlaethol, wedi cael ystod o effeithiau andwyol ar ein hamgylchedd, gydag enghreifftiau megis gwaredu gwrychoedd, gor-bori a choedwigo mewn degawdau blaenorol wedi'i dogfennu'n dda.

Fodd bynnag, wrth i'n gwybodaeth am ecosystemau dyfu, mae tystiolaeth o bwysigrwydd pobl ac amaethyddiaeth fel rhan o ecosystemau hefyd yn tyfu; er enghraifft, mae colli da byw yn pori a gostyngiadau mewn rheoli pla bellach yn cael eu cydnabod fel rhai sydd wedi cael effaith niweidiol ar ystod o rywogaethau mewn rhai ardaloedd, yn enwedig adar sy'n nythu ar y tir.

Er bod llawer o wersi wedi'u dysgu ers hynny, mae angen i'r gwaith barhau i wella ac adfer cynefinoedd ymhellach a mynd i'r afael â dirywiad rhywogaethau - o ran niwed a achosir gan ddwysáu neu dan reolaeth.

Am fwy na dau ddegawd, mae polisïau amaethyddol wedi canolbwyntio'n gynyddol ar gyflawni canlyniadau amgylcheddol, ac mae'n hanfodol bod gwaith o'r fath yn parhau a dysgu gwersi o gamau gweithredu blaenorol.

Ond, y teuluoedd sydd wedi ffermio a rheoli'r tir am genedlaethau yw'r bobl gorau i wneud y gwaith - mae pobl sy'n gweld ac yn ymwybodol o newidiadau i'w hamgylcheddau ac arferion ffermio yn aml yn cael eu wfftio o blaid esboniadau academaidd ysgrifenedig a all fod yn berthnasol i rai ardaloedd yn unig.

Uwchlauw popeth arall, mae'n rhaid i gynlluniau'r dyfodol fod ar gael i bob ffermwr, yn ogystal â bod yn hyblyg ac yn addasadwy, gan gynnig ystod o opsiynau ar gyfer ffermydd unigol ac i'r rhai sy'n barod ac yn gallu gweithio ar y cyd.

**“Ond, y teuluoedd sydd wedi ffermio a rheoli'r tir am genedlaethau yw'r bobl gorau i wneud y gwaith - mae pobl sy'n gweld ac yn ymwybodol o newidiadau i'w hamgylcheddau ac arferion ffermio yn aml yn cael eu wfftio o blaid esboniadau academaidd ysgrifenedig a all fod yn berthnasol i rai ardaloedd yn unig”**

## 5. Ansawdd a rheolaeth dŵr

Mae ein diwydiant amaethyddol yn dibynnu ar law, ac mae systemau tywydd yr Iwerydd ynghyd â'n safle ar Lif y Gwlff yn gwneud y DU yn ddelfrydol ar gyfer tyfu ystod eang o gnydau.

Ond, mae newid yn yr hinsawdd yn dod a mwy o ansicrwydd o ran cysondeb a chyfrolau glaw, sy'n golygu heriau i gynhyrchwyr amaethyddol yn ogystal â'r rhai eraill sy'n anffodus i gael eu heffeithio gan sychder, llifogydd neu effeithiau eraill.


Er na all ffermwyr reoli'r tywydd, gallant chwarae rhan wrth helpu i reoli llif y dŵr er budd eu hunain a'r rheiny sydd gerllaw neu nes lawr yr afon sydd mewn perygl o lifogydd, trwy ddulliau megis rheoli

cyrsiau dŵr yn rhagweithiol neu gynyddu cadw dŵr yn yr ucheldir.

Mae gofynion defnyddwyr a phwysau economaidd, ynghyd â dulliau ffermio modern, yn golygu y gall ffermydd hefyd fod yn fygythiad i ansawdd dŵr, yn enwedig ar adegau o dywydd eithafol, ac er nad yw'r mwyafrif helaeth o ffermydd yn achosi problemau, ond pan fydd problem gall yr effeithiau fod yn ddifrifol.

O dan bolisïau amaethyddol yn y dyfodol, dylai ansawdd dŵr a rheolaeth ffurfio rhan hanfodol o bolisïau cenedlaethol, boed o dan strategaethau neu ran o raglenni ehangach.

**“O dan bolisïau amaethyddol yn y dyfodol, dylai ansawdd dŵr a rheolaeth ffurfio rhan hanfodol o bolisïau cenedlaethol, boed o dan strategaethau neu ran o raglenni ehangach”**



## 6. Datblygiad fferm a chyfrifoldeb

Am ddegawdau, mae gweinyddiaethau olynol yng Nghymru a'r DU wedi tynnu sylw at yr angen i ffermydd fonitro a gwella effeithlonrwydd. Er hynny, nid yw cynlluniau sy'n gofyn am fonitro o'r fath yn digwydd yn gyffredinol, ac mae arian helaeth wedi cael ei wario i gefnogi mentrau sydd, mewn gwirionedd, heb eu hasesu o ran eu heffaith bositif neu fel arall ar berfformiad busnes.

Mae gwelliannau mewn technoleg yn golygu bod y mwyafrif o fusnesau bellach mewn sefyllfa i ddarparu data sylfaenol i safle canolog y gellid ei ddefnyddio i asesu a monitro ystod o ffactorau sy'n berthnasol i faterion mor amrywiol ag hinsawdd, cynefin, perfformiad economaidd ac iechyd anifeiliaid.

Byddai'r fath fonitro yn rhoi modd gwerthfawr i ffermwyr asesu statws eu busnesau ar ystod o lefelau, a hefyd yn caniatáu i gyngor ac ymyriadau gael eu teilwra, eu targedu a'u hasesu, a chyrrff diwydiant i ganfod tueddiadau a phatrymau ar draws sectorau a'r diwydiant yn ei chyfarwydd.

Mae'n bosib y bydd y gofynion statudol i gasglu a dadansoddi data fferm mewn ffyrdd unffurf yn dod i ben oherwydd Brexit, gan ei gwneud hi'n amhosibl gwneud cymariaethau rhwng mathau o ffermydd a sectorau ar draws y pedair gwlad.

O dan bolisiau amaethyddol a gwledig yn y dyfodol, dylai'r ddarpariaeth o gymorth ariannol gael ei gysylltu gyda'r gofynion i ddarparu gwybodaeth sylfaenol y gellir ei ddefnyddio at y diben hwnnw yn ogystal ag er budd y ffermwr ei hun, tra byddai gweinyddiaethau'r DU wrth gwrs yn cael yr opsiwn i ofyn am wybodaeth ychwanegol yn unol â'u hamcanion polisi nhw.

Yn hanfodol i welliannau mewn effeithlonrwydd fferm, perfformiad amgylcheddol, iechyd anifeiliaid a phlanhigion a phob agwedd arall o'n diwydiant, mae angen datblygu, treialu a mabwysiadu gwelliannau technolegol, a dylai pob un ohonynt barhau i fod yn rhan o'r rhaglenni'r dyfodol ledled y DU - boed yn annibynnol neu drwy gydweithio rhwng cenhedloedd.

**“Yn hanfodol i welliannau mewn effeithlonrwydd fferm, perfformiad amgylcheddol, iechyd anifeiliaid a phlanhigion a phob agwedd arall o'n diwydiant, mae angen datblygu, treialu a mabwysiadu gwelliannau technolegol”**



## 7. Iechyd anifeiliaid a phlanhigion ac ansawdd bwyd

Mae ansawdd ein bwyd wedi'i ategu gan iechyd ein planhigion ac anifeiliaid, ac mae ein safonau uchel yn golygu bod y DU yn ymfalchio mewn cofnodion diogelwch bwyd sydd heb eu hail.


Fodd bynnag, mae ein diwydiant yn wynebu heriau cyson, boed hynny o ran mynd i'r afael â chlefydau endemig, neu fygythiadau newydd sy'n cyrraedd o ganlyniad i fewnforion, newid yn yr hinsawdd a ffactorau eraill.

Mae cynnal iechyd planhigion ac iechyd a lles anifeiliaid yn hollbwysig i ddyfodol ein diwydiant

yn ogystal â bod o fudd i'n cenhedloedd, tra bod dyletswydd arnom hefyd i sicrhau bod y bwyd a gynhyrchwn yn bodloni amcanion o ran dietau cytbwys iach.

Dangoswyd bod ymyriadau o dan nifer o gynlluniau ar draws yr UE yn cael effeithiau cadarnhaol ar safonau bwyd ac iechyd a lles anifeiliaid, a dylai ein cenhedloedd allu adeiladu ar y dulliau hynny er mwyn ein rhoi ar flaen y gad o ran safonau.

**“Mae cynnal iechyd planhigion ac iechyd a lles anifeiliaid yn hollbwysig i ddyfodol ein diwydiant yn ogystal â bod o fudd i'n cenhedloedd”**



## Fformiwla ariannu deg

Mae dyrannu cyllidebau teg sy'n adlewyrchu anghenion pob un o wledydd y DU yn allweddol i weithrediad polisiâu gwledig priodol.

Roedd yr addewid a roddwyd ym mis Awst 2016 gan y Canghellor Philip Hammond y byddai cyllid yn deillio o'r UE yn parhau i 2020

wedi'i groesawu'n glir, fel yr oedd addewid yr Ysgrifennydd Gwladol Michael Gove ym mis Ionawr 2018 i gynnal cyllideb y PAC tan 2022, ac o bosibl tan 2024.

Fodd bynnag, mae amwysedd yn parhau o ran ystyr ymrwymiadau o'r fath o ran sut y bydd arian yn cael ei ddyrannu, ei weinyddu a'i drosglwyddo i wledydd datganoledig, sy'n achosi rhwystr mawr o ran paratoi ar gyfer Brexit.

Mae UAC wedi datgan yn glir y dylai'r dyraniadau cenedlaethol o arian gwledig ar ôl Brexit aros ar y lefelau presennol o leiaf, a rhaid eu neilltuo i atal llywodraethau rhag dargyfeirio arian i feysydd eraill mewn ffordd sy'n arwain at wahaniaethau mawr rhwng gwariant cenedlaethol.

Mae Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones ac eraill wedi cefnogi'r farn hon, ac mae'r farn yn cael ei dderbyn yn gyffredinol, gan gynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol Michael Gove, y byddai'r ddarpariaeth o arian gwledig trwy Fformiwla Barnett yn gwbl annerbyniol oherwydd y gostyngiad llym mewn dyraniadau cenedlaethol a dderbyniwyd gan Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a fyddai'n cyd-fynd â cham o'r fath.

Cyhoeddwyd dyraniadau cyfredol o gyllidebau PAC y DU ym mis Tachwedd 2013 gan Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd Owen Patterson, ac maent yn seiliedig ar ddyraniadau a gwariant hanesyddol ym mhob un o'r pedair gwlad yn y DU (Tablau 1 a 2).

O ystyried yr ansicrwydd sy'n wynebu pob un o'n cenedloedd o ganlyniad i Brexit a'r tensiynau gwleidyddol ynghylch y mater, byddai unrhyw ostyngiadau mewn dyraniadau yn cyfuno heriau presennol; hefyd, mae'r ddadl yn

Tabl 1	Dosbarthiad Colofn 1 2014-2020 (miliynau)	Dosbarthiad Colofn 2 2014-2020 (miliynau)	Cyfanswm (2014-2020) ac eithrio cyfraniadau
DU	€25,100	€2,600	€27,700
Lloegr	€16,421	€1,520	€17,941
Gogledd Iwerddon	€2,299	€227	€2,526
Yr Alban	€4,096	€478	€4,574
Cymru	€2,245	€355	€2,600

Tabl 2	% o gyllideb PAC 2014-2020 y DU		
	Colofn 1	Colofn 2	Cyfanswm
Lloegr	65%	58%	65%
Gogledd Iwerddon	9%	9%	9%
Yr Alban	16%	18%	17%
Cymru	9%	14%	9%

gryf ar gyfer cynnydd yn y dyraniadau, o gofio'r problemau difrifol a allai wynebu llawer o sectorau amaethyddol y DU ar ôl Brexit.

Fodd bynnag, yn y tymor byr, mae'n rhaid cymryd camau i sefydlu mecanwaith y gellir neilltuo arian a'i rannu i'r rhanbarthau datganoledig y tu allan i Fformiwla Barnett, tra yn y tymor hirach mae angen disodli'r dyraniad hanesyddol presennol gan fformiwla sy'n adlewyrchu'n deg anghenion rhanbarthol heb afluniad marchnadoedd.

O dan gyfundrefn gyfredol yr Undeb Ewropeaidd, mae rheolau llym yn rheoli cyfran y cyd-gyllido cenedlaethol sy'n gallu ategu cyllid PAC; mae angen i reolau fod mewn grym hefyd sy'n gwasanaethu'r un swyddogaeth o ran atal cyfraniadau cenedlaethol gormodol rhag afluniad marchnadoedd a chyflwyno manteision annheg ar ôl Brexit.

## Fframwaith aml-flynyddol

Er gwaethaf amrywiadau posibl a achosir gan, er enghraifft, amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid a Disgyblaeth Ariannol PAC, mae'r ffaith bod cyllideb PAC wedi'i bennu'n effeithiol o fewn Fframwaith Ariannol Aml-flynyddol yr UE am gyfnodau o saith mlynedd yn darparu sefydlogrwydd sylweddol i'n ffermwyr.

Ar ôl Brexit, mae perygl pa bynnag ddull sy'n cael ei ddefnyddio i neilltuo cyllid gwledig i wledydd

y DU, y gallai'r gyllideb gyffredinol fod yn agored i amrywiadau blynyddol sylweddol a thrafferthus o ganlyniad i newidiadau i flaenoriaethau gwariant y llywodraeth.

Cyda hyn mewn golwg, mae UAC yn credu y dylid ymchwilio i fecanweithiau sy'n sefydlu fframwaith aml-flynyddol sy'n darparu sefydlogrwydd am gyfnodau o bum mlynedd neu fwy o ran cyllid gwledig.





## Fframweithiau ariannol

Er bod sicrhau cytundeb ar yr amcanion eang sy'n sail i fframweithiau polisi'r DU yn hanfodol, heb drothwy ar wariant cysylltiedig ar gyfer pob amcan mae risg o wahaniaeth sylweddol rhwng gwariant cenedlaethol sy'n arwain at amhariad ac afluniad y farchnad.

Felly, mae angen cytuno ar drothwyon gwariant sy'n darparu hyblygrwydd sy'n adlewyrchu pwerau datganoledig a blaenoriaethau cenedlaethol amrywiol, tra hefyd yn sicrhau unffurfiaeth gymharol, i'r graddau y caiff afluniad y farchnad ac effeithiau andwyol eraill eu lleihau.

Mae trothwyon o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd o dan y gyfundrefn PAC; er enghraifft, gall Aelod-wladwriaethau amrywio faint o arian y mae eu ffermwyr yn ei gael mewn cymorth uniongyrchol trwy drosglwyddo arian rhwng cymorth uniongyrchol a chyllidebau datblygu gwledig o fewn trothwyon penodol; nid yw'r gwahaniaethau sy'n deillio o hyblygrwydd o'r fath yn llai amlwg nag yma yn y DU, gyda chyfraddau trosglwyddo o daliadau uniongyrchol i gyllidebau datblygu gwledig yn amrywio o 0 y cant yng Ngogledd Iwerddon i 15 y cant yng Nghymru - yr uchafswm a ganiateir o dan y rheoliadau (Tabl 3).

Er gwaethaf rhwystredigaeth llawer o ffermwyr ynglŷn â throsglwyddo hyd at 15 y cant o'u taliadau uniongyrchol, o'i gymharu â chyfartaledd yr UE

o tua 5 y cant, fel mae pethau ar hyn o bryd, ar ôl Brexit ni fydd trothwyon gwario yn bodoli o gwbl, gan roi cyfle i amrywiadau posibl mewn gwariant sy'n hollol newydd.

Ni fydd cytuno ar drothwyon o'r fath yn hawdd o ystyried gwahaniaethau gwleidyddol cyfredol, sy'n golygu bod yna demtasiwn i anwybyddu'r mater; dylid osgoi diddymu cyfrifoldeb o'r fath gan lywodraethau cenedlaethol ar bob cyfri, o ystyried y perygl o wahaniaethau enfawr rhwng polisiâu cenedlaethol a gwariant yn cynrychioli i'n cenedloedd.

Mae Tabl 4 yn cyflwyno enghreifftiau trafod o drothwyon gwariant cyffredinol ar gyfer yr amcanion polisi hynny a nodwyd eisoes, gan

gynnwys y ganran wreiddiol o gyllideb wledig y dylid ei wario ar bob amcan, a'r hyblygrwydd cenedlaethol y gall cenedloedd amrywio'r gwariant ar yr amcanion hyn.

Dylid nodi y byddai polisi cadarn yn debygol o gynnwys ffigurau ar gyfer is-gategoriâu ym mhob un o'r meysydd hyn, ac mae enghreifftiau ohonynt yn cael eu darparu yn Nhabl 5.


Dylid nodi y byddai llawer o bolisiau yn bodloni mwy nag un amcan polisi, a thrwy hynny'n cynyddu'r hyblygrwydd yn sylweddol sydd ar gael i genhedloedd o ran llunio cynlluniau sy'n gweddu i amgylchiadau ac amcanion cenedlaethol wrth gadw cyffredindeb cymharol.

Tabl 3	% o gyllid Colofn 1 i'w drosglwyddo i Colofn 2 yn 2018
Cymru	15%
Lloegr	12%
Yr Alban	9.5%
Gogledd Iwerddon	0%

Tabl 4		
Amcan	Canran o gyllideb wledig	Hyblygrwydd cenedlaethol
Ffermydd teuluol ac economi wledig	70%	± 5%
Newid yn yr hinsawdd	8%	± 2%
Cadwyni cyflenwi teg a diogel	3%	± 1%
Amgylchedd a chynefin	8%	± 2%
Ansawdd a rheolaeth dŵr	4%	± 1%
Datblygiad fferm a chyfrifoldeb	3%	± 1%
Iechyd anifeiliaid a phlanhigion	4%	± 1%

Tabl 5			
Amcan	Is-gategori	Canran o gyllideb wledig	Hyblygrwydd Cenedlaethol
Ffermydd teuluol ac economi wledig	Taliadau ardal	60%	± 10%
	Taliadau'r Pen	5%	± 5%
	Taliadau ardal dan anfantais	4%	± 4%
	Cymorth ar gyfer daliadau'r awdurdod lleol	1%	±1%
Newid yn yr hinsawdd	Ynni adnewyddadwy	6%	± 2%
	Atafaeliad carbon	4%	± 2%

**“Mae angen cytuno ar drothwyon gwariant sy'n darparu hyblygrwydd sy'n adlewyrchu pwerau datganoledig a blaenoriaethau cenedlaethol amrywiol”**



## Fframweithiau deddfwriaethol

Nid oes fawr o anghydfod ynghylch yr angen am fframweithiau'r DU sy'n sicrhau cyffredinedd o ran safonau fel y rhai sy'n ymwneud â phlaladdwyr, olrhain anifeiliaid a labelu bwyd, ac mae Llywodraeth y DU eisoes wedi nodi 24 o ardaloedd sy'n cwmpasu llawer o'r rhain.

Fodd bynnag, mae gwagle ar hyn o bryd yn bodoli o ran meysydd eraill lle gallai rheolau cyffredin neu gyfwerth o ran safonau ac ymyriadau fod yn ddymunol - er enghraifft, o ran y rheolau cymhwyster ar gyfer cynlluniau.

Dylai rheolau cyffredin o'r fath anelu'n glir at leihau'r gwahaniaethau o afluniad y farchnad ymhellach neu a allai gyflwyno manteision annheg, yn ogystal â chynnal uniondeb fframwaith trosfwaol, ond dylai fod yn ddigon hyblyg i ystyried amrywiaethau ac anghenion cenedlaethol.

Byddai enghreifftiau'n cynnwys:

1. Rheolau sy'n diffinio ffermwr dilys sy'n gymwys i gael cymorth ac ymyriadau - mae o fudd i'r holl genhedloedd i sicrhau bod ymyriadau a chefnogaeth wedi'u targedu'n briodol ym mhob cenedl.
2. Cytundeb cyffredin ar gyfraddau y dylid capio cymorth uniongyrchol, taliadau amgylcheddol, taliadau am ddarparu nwyddau cyhoeddus ac ymyriadau eraill - taliadau mawr mewn cenedloedd lle nad oes unrhyw gap ar daliad yn anghlod ar y polisi presennol, er gwaethaf bod capio wedi digwydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ers 2015.
3. Diffiniadau cyffredin o'r hyn sy'n gyfystyr â newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ifanc - mae cytundeb cyffredinol ym mhob un o wledydd y DU o'r angen i gefnogi ffermwyr ifanc a newydd-ddyfodiaid, ac ni fyddai gwahaniaeth sylweddol rhwng meini prawf cymhwyster o fudd i neb.
4. Rheolau cyffredin sy'n diffinio'r wybodaeth y dylai ffermwyr ei ddarparu i'r llywodraeth er mwyn bod yn gymwys ar gyfer ymyriadau - dylai fod yn orfodol i ffermwyr sy'n gymwys ar gyfer ymyriadau ddarparu gwybodaeth allweddol er mwyn galluogi llywodraethau cenedlaethol a'r diwydiant fonitro perfformiad economaidd, newidiadau mewn defnydd tir a phatrymau eraill. Fodd bynnag, bydd yr amrywiad rhwng cenedloedd o ran beth a sut y caiff data ei gasglu yn tansellio'r gallu i asesu effaith ymyriadau a gwneud cymariaethau angenrheidiol.
5. Ymagweddau cytunedig ar ddelio â daliadau trawsffiniol y DU - mae cannoedd o ddaliadau yn cael eu rhannu gan ffiniau cenedlaethol, ac mae hyn eisoes yn arwain at broblemau sylweddol i ffermwyr o'r fath. Dylai fframwaith yn y dyfodol negyddu effeithiau o'r fath.

O gofio'r integreiddio ar hyd cadwyni cyflenwi sy'n ymestyn ar draws y DU, a'r tebygrwydd rhwng heriau a wynebir mewn gwahanol ranbarthau, efallai y bydd cenedloedd yn dymuno cydweithio ar ddulliau, cynlluniau ac ymyriadau er mwyn manteisio i'r eithaf ar fuddion.

Gallai enghreifftiau gynnwys ymagweddau hirdymor megis yswiriant, buddsoddiad, amddiffyniad ymylol a chynlluniau benthygiad, neu ymyriadau brys fel y rhai sy'n angenrheidiol yn dilyn achosion o glefyd anifeiliaid, tywydd eithafol neu gwymmp mewn prisiau byd-eang - byddai pob un ohonynt yn elwa o gael ei ategu gan fframweithiau deddfwriaethol.





---

Am wybodaeth pellach, cysylltwch â UAC ar:

01970 820820 | [post@fuw.org.uk](mailto:post@fuw.org.uk) | [www.fuw.org.uk](http://www.fuw.org.uk)